

Atebion

Tasg 1: Campau Gemau Olympaidd 2016

athletau
badminton
beicio
bocsio
campau marchogol (campau ar gefn ceffyl)
canwïo
cleddyfaeth
codi pwysau
golff
gymnasteg
hoci
hwylïo
jiwdo
nofïo
pêl-droed
pêl-fasged
pêl-foïi
pêl-law
pentathlon
reslo
rhwyfo
rygbi saith bob ochr
saethu
saethyddiaeth
taecwondo
tennis
tennis bwrdd
triathlon

Tasg 2: Enwi'r campau

Sleid 1: Chwifio clybiau

Roedd chwifio clybiau'n gystadleuaeth yng Ngemau Olympaidd 1904 ac 1932. Roedd rhaid i'r cystadleuwyr sefyll a chwifio clybiau o gwmpas eu corff a'u pen a byddai'r rwtîn gorau'n ennill.

Nid yw'r gystadleuaeth yn bodoli heddiw ond mae wedi datblygu'n gymnasteg rythmig, lle mae'r cystadleuwyr yn defnyddio rhaff, pêl neu ruban yn ogystal â chlybiau.

Sleid 2: Dringo rhaff

Roedd dringo rhaff yn gystadleuaeth yn y Gemau Olympaidd yn 1896 ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ar y dechrau, roedd y beirniaid yn ystyried cyflymder ac arddull y cystadleuwyr ond erbyn yr ugeinfed ganrif, cyflymder oedd yn bwysig. Yn 1904, dyn o'r enw George Eyser enillodd – er bod ganddo goes bren. Daeth y gystadleuaeth i ben yn 1932.

Sleid 3: Nofio cydamserol unigol

Mae nofio cydamserol yn un o gystadlaethau'r Gemau Olympaidd heddiw. Rhaid i dîm o nofwyr "ddawnsio" yn y pwll nofio, gan gadw at rythm cerddoriaeth. Heddiw, gweithgaredd tîm yw'r gystadleuaeth hon ond, yn 1984, cystadleuaeth i unigolion oedd hi, lle roedd rhaid i'r cystadleuydd wneud symudiadau gan gadw at rythm darn o gerddoriaeth.

Sleid 4: Gornest pistolau

Yn 1906, roedd y cystadleuwyr yn saethu tua 20 – 30 metr at ddymis wedi eu gwisgo mewn cotiau.

Sleid 5: Ras nofio rhwystrau

Mae cystadlaethau nofio'n bwysig iawn yn y Gemau Olympaidd modern ond yng Ngemau Olympaidd 1900, roedd un gystadleuaeth lle roedd rhaid i'r nofwyr nofio ras rwystrau. Wrth iddyn nhw nofio am 200 metr yn afon Seine, yr afon sy'n llifo drwy Baris, roedd rhaid tynnu eu hunain dros gychod, nofio oddi tanynt a dringo polyn.

Sleid 6: Saethu colomennod byw

Mae saethu wedi bod yn rhan o'r Gemau Olympaidd ers 1896 ac mae'n parhau i fod. Yng Ngemau Olympaidd 1900, ym Mharis, roedd rhaid saethu at dargedau oedd yn symud – sef colomennod byw. Yn ôl y sôn, lladdwyd tua 300 o golomennod.